



PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gafodd ei gynnal brynhawn Iau, 17 Mai 2018 am 5pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian. Cwm Clydach, Tonypanydy CF40 2XX.

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Aelodau o'r Pwyllgor Datblygu a Chynllunio oedd yn bresennol:-

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Caple	Y Cynghorydd J Bonetto	Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd D Grehan	Y Cynghorydd G Hughes	Y Cynghorydd A Davies-Jones
Y Cynghorydd S Powell	Y Cynghorydd W Owen	

Swyddogion oedd yn bresennol:-

Mr S. Gale, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio
Mr J Bailey, Rheolwr Materion Rheoli Datblygu
Mr S Zeinali, Rheolwr Rheoli Datblygiad y Priffyrdd
Mr S. Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Cynllunio a'r Amgylchedd

190 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr J. Williams a D. Williams.

191 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, datganodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A. Davies-Jones fuddiant personol a rhagfarnus ynglŷn â Chais Rhif 7: 18/0321 - Dymchwel y siop bresennol ac adeiladu pâr o dai pâr (ail-gyflwyniad), Cynweithdy a Siop, 85a Penrhiwfer Road, Tonyrefail. "Mae un o'r gwrthwynebwyr yn aelod agos o'r teulu ac, felly, byddaf yn siarad ar yr eitem yma ac yn gadael y cyfarfod tra bydd yn cael ei hystyried".

192 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

193 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy

yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

194 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 5 Ebrill, 2018 yn rhai cywir.

195 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

196 CAIS: 18/0321

Dymchwel y siop bresennol ac adeiladu pâr o dai pâr (ail-gyflwyniad), Cynweithdy a Siop, 85a Penrhiwfer Road, Tonyrefail.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr A. Williams (Ymgeisydd). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

(Noder: Ar ôl datgan buddiant yn flaenorol yn y cais (Cofnod Rhif 191), arferodd yr Aelod o'r Pwyllgor/Aelod Lleol, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A. Davies-Jones, ei hawl i annerch y Pwyllgor o dan adran 14(2) o'r Côd Ymddygiad ar y cais. Amlinellodd ei phryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a ddilynodd).

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor a **PHENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

197 CAIS: 18/0165

Tŷ ar wahân arfaethedig, tir gyferbyn ac i'r de o 13 i 18 Baptist Square, Blaenllechau, Glynrhedynog.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor a **PHENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

198 CAIS: 18/0225

Adeiladu garej ar gyfer defnydd domestig, Tŷ Seren, Emlyn Close, Thomastown, Tonyrefail, Y Porth.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu'r cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn ystyriaeth, **PENDERFYNWYD** caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio yn amodol ar ofyniad i swyddogion hysbysu Dŵr Cymru o'r cynlluniau a bod nodyn cynghori'n cael ei gynnwys o fewn y caniatâd bod angen cael cytundeb 'adeiladu dros' gyda Dŵr Cymru os bydd y garej i gael ei adeiladu dros unrhyw offer Dŵr Cymru.

(Noder: Roedd Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A. Davies-Jones am gofnodi ei

bod wedi pleidleisio yn erbyn cymeradwyo'r cais uchod)

199 CAIS: 17/1334

Newid defnydd y tir ar gyfer cadw ceffylau a gwaith arfaethedig i adeiladu stablau (Disgrifiad Diwygiedig 18/01/18) (Y Cynllun Diwygiedig a Dderbyniwyd 12/02/18), tir ger Byngalo Pen-y-Bryn, Penrhiwfer Road, Penrhiw-fer, Tonypandy.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu'r cais a gafodd ei adrodd yn wreiddiol i'r Pwyllgor ar 19 Ebrill, 2018, lle roedd yr Aelodau o blaid cymeradwyo'r cais, yn groes i argymhelliad swyddog y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Cynllunio (Mae Cofnod 181 yn cyfeirio ato).

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, gan dynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl cymeradwyo yn groes i argymhelliad y swyddog. Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD** caniatáu'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio yn amodol ar ddileu Amod 4 - *'Dim ond trwy'r trefniadau mynediad presennol sy'n gwasanaethu'r annedd a elwir yn Pen-y-Bryn Bungalow, fel sy'n cael ei nodi ar y cynllun diwygiedig a gafodd ei dderbyn ar 12/12/18, y bydd modd cael mynediad at y stablau a'r defnydd o'r tir sy'n cael ei ganiatáu drwy hyn'*. Roedd Aelodau'n teimlo nad oedd angen yr amod gan fod gan yr Ymgeisydd hawl gyfreithiol i ddefnyddio'r ffordd fynediad.

Roedd yr Aelodau yn parhau o'r farn na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar fwynderau preswylwyr eiddo preswyl cyfagos yn deillio o gynhyrchu sŵn, arogl neu aflonyddwch cyffredinol.

200 CAIS: 18/0097

Newid arfaethedig i ddefnydd garej domestig i fusnes manwerthu bach, 2 Ruperra Street, Llantrisant, Pont-y-clun.

Cyflwynodd y Rheolwr Rheoli Datblygu'r cais a gyflwynwyd yn wreiddiol i'r Pwyllgor ar 19 Ebrill, 2018, lle'r oedd yr Aelodau o blaid cymeradwyo'r cais, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio (Mae Cofnod 182 yn cyfeirio at hyn).

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, gan dynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl cymeradwyo yn groes i argymhelliad y swyddog. Yn dilyn ystyriaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau gymeradwyo'r cais yn groes i argymhellion y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio. Roedd Aelodau o'r farn gan fod y datblygiad yn cynnwys parcio oddi ar y stryd, ac oherwydd bod y siop yn fach, ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith andwyol ar ddiogelwch y ffordd.

201 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau

Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 9 Ebrill, 2018 a 4 Mai, 2018.

(Noder: Cafodd yr Aelodau eu hysbysu am y newidiadau canlynol i'r adroddiad cyn eu hystyried:

- Cafodd yr apêl ar gyfer Cais - 17/1269 ei phenderfynu ar 4 Mai, 2018 nid 19 Mawrth, 2018 fel y nodwyd yn yr adroddiad gwreiddiol
- Cafodd Cais - 17/1131 ei wrthod ar 7 Mawrth, 2018, nid ei gymeradwyo ar 7 Mai, 2018 fel y nodwyd yn yr adroddiad gwreiddiol a;
- Cafodd yr apêl ar Gais - 17/1221 ei benderfynu ar 9 Ebrill, 2018, nid 30 Medi, 2018 fel y nodwyd yn yr adroddiad gwreiddiol.)

Daeth y cyfarfod i ben am 5.25pm

**Y CYNGHORYDD S. REES
CADEIRYDD.**